**EITEM 5(ii)**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 4 Mawrth 2014 |
| **TEITL** | Rhagolwg Balansau Ysgolion ar 31/3/2014 |
| **PWRPAS** | Codi ymwybyddiaeth a chynnal trafodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried holl gyd-destun y drafodaeth |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

## 1. Cefndir

1.1 Cyflwynir Atodiad 1 sy'n cynnwys rhagolwg o gyfanswm balansau ysgolion Gwynedd ar 31 Mawrth 2014.

## 2. Crynodeb

2.1 Awgrymir y gall balansau holl ysgolion Gwynedd leihau £200,000 (neu fwy) erbyn diwedd y flwyddyn gyllidol 2013/14 i £3.539m, cyfateb i 4.9% o ddyraniad cyllidol ysgolion (y casgliad yma yn seiliedig ar yr amcangyfrif uchaf o amrediad balansau yr Ysgolion Cynradd)

2.2 Awgrymir y gall nifer yr ysgolion gyda diffyg cyllidol leihau o 12 ar 31 Mawrth 2013 i 7 (neu lai) ar 31 Mawrth 2014.

## 3. Ysgolion yn ôl sector

3.1 Mae amrediad rhagolwg balansau Ysgolion Cynradd yn awgrymu y gall eu balansau naill ai aros o gwmpas yr un lefel â'r llynedd neu gynyddu hyd at £400,000 fyddai'n gadael cyfanswm balansau o ddeutu £2.7m ac yn cyfateb felly i 7.7%.

3.2 Mae rhagolwg Ysgolion Uwchradd yn awgrymu y gall eu balansau leihau oddeutu £600,000 i gymharu gyda'r llynedd fyddai'n gadael cyfanswm balansau oddeutu £0.8m ac yn cyfateb felly i 2.3%.

3.3 Mae'r rhagolwg ar gyfer y ddwy Ysgol Arbennig yn awgrymu uchafswm balansau o £30,000, ac yn cyfateb felly i 1.4%.

**4. Casgliadau**

4.1 O safbwynt holl ysgolion Gwynedd, nid yw rhagolwg canran balansau o 4.9% yn afresymol o uchel cyn belled ag y bo'r ysgolion yn llwyr ymwybodol or rhesymau dros gadw'r balansau hyn.

4.2 Tra bod manylu ar **sector** yn rhoi'r argraff bod balansau Ysgolion Cynradd yn parhau'n uchel ac o bosib am gynyddu ymhellach, dylid ystyried y mater o falansau ysgolion trwy edrych ar falansau **ysgolion unigol**.

4.3 Mae adroddiadau eraill sydd ar raglen cyfarfod heddiw wedi ceisio mynd dan groen pam fod gan rai ysgolion falansau uchel, a'r disgwyl yw y bydd y casgliadau a'r argymhellion yn arwain at well defnydd o falansau gan rai ysgolion.